# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 21 Tachwedd 2017

Amser: 08.30 - 09.15

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC, Llywydd (Cadeirydd)<br>Julie James AC<br>Paul Davies AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Gareth Bennett AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

### 3.1 Papur 1 – Busnes yr Wythnos Hon

**Dydd Mawrth**

- Ychwanegodd y Llywodraeth ddatganiad at agenda Cyfarfod Llawn dydd Mawrth:
  - Y Gweinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth: Dyfodol Cadw (30 munud)

- Byddai pob pleidlais mewn perthynas â'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn digwydd yn ystod trafodion Cyfnod 3.

- Cadarnhaodd Gweinidog Busnes y Llywodraeth y byddai'r pleidleisio ar bob eitem arall o fusnes yn cael ei gynnal cyn i drafodion Cyfnod 3 ddechrau.

- Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes y byddai egwyl o 15 munud cyn i drafodion Cyfnod 3 ddechrau.

**Dydd Mercher**

- Byddai'r Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal cyn y Ddadl Fer.

### 3.2 Papur 2 – Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Papur 3 – Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 29 Tachwedd 2017 –**

- Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.2 i roi cyfarwyddyd i'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog (60 munud)

**Dydd Mercher 6 Rhagfyr 2017 –**

- ~~Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Fynediad at Drafnidiaeth ar gyfer Pobl Anabl (60 munud) –~~ *wedi'i ohirio*
- Dadl ar y ddeiseb 'Cymuned Port Talbot yn erbyn yr Archgarchar' (60 munud)

**Dydd Mercher 13 Rhagfyr 2017 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig: Heb gyrraedd gwreiddyn y mater: uchelgais newydd ar gyfer polisïau coetiroedd (60 munud)
- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)
-

**3.4 Papur 4 – Dadl Aelodau: Dewis y Cynnig ar gyfer y Ddadl**

- Dewisodd y Pwyllgor Busnes gynnig ar gyfer dadl ar 29 Tachwedd:

**NNDM6521**

Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)

Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni)

Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

David Melding (Canol De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y gall inswleiddio waliau ceudod, pan y caiff ei wneud yn gywir mewn eiddo addas, fod yn ffordd gost effeithiol o leihau biliau tanwydd, gan gyfrannu at leihau allyriadau carbon a thlodi tanwydd.

2. Yn credu, fodd bynnag, fod lleiafrif sylweddol o osodiadau yn parhau mewn eiddo anaddas ac eiddo nad yw'n cydymffurfio â safonau gwaith da, a bod ceisio cael iawn am hynny yn aml yn anodd a'r iawndal yn aml yn annigonol neu'n amhosibl ei gael.

3. Yn annog Llywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU, Cavity Insulation Guarantee Agency ac eraill i ddarparu iawndal priodol ac iawndal ar gyfer gwaith a gaiff ei osod yn anghywir, ac i gryfhau'r prosesau ar gyfer diogelu defnyddwyr yn y dyfodol.

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gynnal y Ddadl Aelod Unigol nesaf ar 13 Rhagfyr.

# 4 Y Cyfarfod Llawn

## 4.1 Papur 5 - Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.2 - cais am ddadl

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i neilltuo amser i gynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.2 i roi cyfarwyddyd i'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog, ddydd Mercher nesaf, 29 Tachwedd, yn ogystal â'r busnes arall a drefnwyd.

Ymataliodd Julie James rhag pleidleisio, gan nad oedd wedi trafod y mater â'i grŵp, ond nid oedd yn dymuno rhwystro'r ddadl rhag cael ei threfnu. Fodd bynnag, dywedodd ei bod yn disgwyl y byddai'r llywodraeth yn cyflwyno gwelliannau i'r cynnig, i egluro rhai rhannau o'r cylch gorchwyl.

Datganodd Rhun ap Iorwerth ei farn y dylai'r Cynulliad ystyried penodi Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Cod y Gweinidogion, yn rhan o'i ystyriaeth o'r mater hwn.

# 5 Pwyllgorau

## 5.1 Papur 6 - Cais am Ddadl Pwyllgor

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i'r cais gan y Pwyllgor Deisebau i gynnal dadl ar y ddeiseb 'Cymuned Port Talbot yn erbyn yr Archgarchar', sydd wedi cael 8,791 o lofnodion. Trefnir y ddadl ar gyfer 6 Rhagfyr yn lle'r ddadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Sicrhau y gall Pobl Anabl Ddefnyddio Trafnidiaeth Gyhoeddus. Caiff y ddadl honno ei haildrefnu i'w chynnal yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai gan y llywodraeth ragor o wybodaeth newydd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i'w rhannu pe byddai'r ddadl yn cael ei chynnal yn y flwyddyn newydd, ond ei bod yn fodlon cyd-fynd â barn y mwyafrif.

### 5.2 Papur 7 – Cais gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig i gynnal ymweliadau â Senedd yr Alban a San Steffan

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i'r cais gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig i gael eu hesgusodi o'r Cyfarfodydd Llawn ar 29 Tachwedd 2017 a 6 Rhagfyr 2017, â'r disgwyliad y byddai'r chwipiau yn gwneud trefniadau i hwyluso hyn.

## 6 Deddfwriaeth

### 6.1 Papur 8 – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

Ar ôl cael cais gan y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfleu i'r Pwyllgor hwnnw ac i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y byddai'n well ganddynt ymestyn y dyddiad cau i 13 Rhagfyr 2017 er mwyn bod yn ddigon hyblyg i allu cynnal dadl yn gynnar yn y flwyddyn newydd pe byddai angen, a rhag i ddigwyddiadau achosi i'r adroddiadau fynd yn angof. Cadarnhaodd y Llywodraeth y byddai'n cyflwyno rhagor o Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar welliannau newydd o sylwedd yn ôl yr angen.

## 7 Amserlen y Cynulliad

### 7.1 Papur 9 – Dyddiadau'r toriadau

Cadarnhaodd y Rheolwyr Busnes y dyddiadau a ganlyn ar gyfer toriad hanner tymor y Sulgwyn a thoriad yr haf yn 2018, a chytunwyd y dyddiadau a ganlyn dros dro ar gyfer hanner tymor mis Hydref a thoriad y Nadolig 2018.

| Toriad | Dyddiadau |
|---|---|
| Hanner tymor y gwanwyn 2018<br>(1 wythnos) | *Dydd Llun 19 Chwefror 2018 – dydd Sul 25 Chwefror 2018* |
| Toriad y Pasg 2018<br>(3 wythnos) | *Dydd Llun 26 Mawrth 2018 – dydd Sul 15 Ebrill 2018* |

| | |
|---|---|
| | |
| Hanner tymor y Sulgwyn 2018 (1 wythnos) | *Dydd Llun 28 Mai – dydd Sul 3 Mehefin 2018* |
| Toriad yr Haf 2018 (8 wythnos) | *Dydd Llun 23 Gorffennaf 2017 – dydd Sul 16 Medi 2018* |
| *Hanner Tymor yr Hydref 2018 (1 wythnos) | *Dydd Llun 29 Hydref 2018 – dydd Sul 4 Tachwedd 2018* |
| * Toriad y Nadolig 2018 (3 wythnos) | *Dydd Llun 17 Rhagfyr 2018 – dydd Sul 6 Ionawr 2019* |

* Dyddiadau dros dro i'w cadarnhau gan y Pwyllgor Busnes.

# 8 Y Pwyllgor Busnes

## 8.1 Papur 10 – Cwestiynau Llafar y Cynulliad

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ohirio'r eitem hon hyd gyfarfod yn y dyfodol.